OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1324 (Cy. 292)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU
# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU
# AMAETHYDDIAETH, CYMRU
# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol a Chynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

| | |
|---|---|
| *Gofynion sifftio wedi eu bodloni - - - -* | *16 Tachwedd 2020* |
| *Gwnaed - - - -* | *19 Tachwedd 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *23rd Tachwedd 2020* |

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae gofynion paragraff 4(a) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (sy'n ymwneud â'r gofyniad i ymgynghori mewn amgylchiadau penodol) a pharagraff 4(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno (sy'n ymwneud â gweithdrefn graffu briodol Senedd Cymru ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol a Chynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(**1**) 2018 p. 16. *Gweler* adran 20(1) o'r Ddeddf honno am y diffiniad o "devolved authority".

**Diwygio Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni a'r Asesiadau Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni a'r Asesiadau Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5(11)(a)(ii), yn lle "y diwrnod ymadael" rhodder "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu".

(3) Yn rheoliad 6(16)(a), yn lle "y diwrnod ymadael" rhodder "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu".

**Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5(2)—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle "y diwrnod ymadael" rhodder "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu";

(b) yn is-baragraff (b), yn lle "y diwrnod ymadael", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu".

(3) Yn rheoliad 6—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "y diwrnod ymadael" rhodder "ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "y diwrnod ymadael", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu".

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

19 Tachwedd 2020

(**2**) O.S. 2019/245 (Cy. 60).
(**3**) O.S. 2019/456 (Cy. 109).

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni a'r Asesiadau Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019. Maent yn diwygio cyfeiriadau at y diwrnod ymadael fel eu bod yn cyfeirio yn lle hynny at ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Ni luniwyd asesiad effaith ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir y bydd unrhyw effaith, neu unrhyw effaith sylweddol, ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.